OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 442

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020

## RHAN 4

### Addasu gofynion ynglŷn â mynediad i'r cyhoedd

**Mynediad i gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol ac at ddogfennau perthynol**

**22.**—(1) Mae paragraff 41 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 i'w darllen, mewn perthynas ag unrhyw awdurdod lleol y mae'r paragraff hwnnw yn gymwys iddo (yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad), fel pe bai—

(a) yn is-baragraff (1), "or (2A)" wedi ei fewnosod ar ôl "sub-paragraph (2)";

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (2)—

"(2A) Notwithstanding anything in any enactment or rule of law to the contrary, the minutes of the proceedings of a meeting of a local authority held after the Local Authorities (Coronavirus) (Meetings) (Wales) Regulations 2020 come into force and before 1 May 2021 may be drawn up in a document, and that document must be authenticated by the person who presided at that meeting; and any minute purporting to be so authenticated must be received in evidence without further proof.";

(c) yn is-baragraff (3), "or authenticated" wedi ei fewnosod ar ôl "signed".

(2) Mae paragraff 44(2) o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 i'w ddarllen, mewn perthynas ag unrhyw awdurdod lleol y mae'r paragraff hwnnw yn gymwys iddo (yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad), fel pe bai ", or authenticated," wedi ei fewnosod ar ôl "signed".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 22 mewn grym ar 22.4.2020, gweler **rhl. 1(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, Adran 22.